Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGOR TREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstay, Rhuthun ar nos Lun, 27 Gorffennaf 2015 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Anne Roberts (**Maer - Cadeirydd**)
Cyngr. Stephen Beach, James Bryan, Elisabeth Culshaw, June Derry, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Simeon Jones, Robert Owen-Ellis, Heather Williams, Geraint Woolford ac Emrys Wynne

54. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyngr. Bob Costain ac Ian Lewney.

55. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb mewn eitemau ar yr Agenda fel a ganlyn:
Datganodd Cyng. Emrys Wynne, fel aelod o'r Eglwys, ddiddordeb personol yn yr eitem ganlynol a gadawodd y siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd.
Datganodd Clerc y Dref, gan fod (a) yr ymgeisydd yn gymdoges a (b) ei fod wedi adolygu cyfrifon yr Eglwys, ddiddordeb personol yn yr eitem ganlynol a gadawodd y Siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd.
Cof. Rhif 64 (ch) Ceisiadau am Gymorth Ariannol – Eglwys y Tabernacl.

56. CYNGOR SIR DDINBYCH - CANOLFAN HAMDDEN BRYNHYFRYD

Derbyniodd yr aelodau gyflwyniad gan Mr Stephen Hughes, Pennaeth Dros Dro, Cyfathrebu, Hamdden a Marchnata, Cyngor Sir Ddinbych ('roedd yr aelodau eisoes wedi derbyn manylion ysgrifennedig o'r prosiect). Mae swm sylweddol o arian wedi ei wario ar y cyfleusterau yng Nghanolfan Hamdden Brynhyfryd – mae leiner y pwll nofio yn cael ei ailosod ynghyd a'r teils ar gost o £40K. Bydd y gampfa ar gau'r penwythnos yma oherwydd anwedd – y ffenestri ddim yn addas ar gyfer y pwrpas. Y gost yw £167k ac mae'r Cyngor Sir yn ymrwymedig i'r prosiect. Bydd gwaith yn cael ei gario allan ar yr hen dderbynfa a bydd y cyfleusterau, pan wedi'u cwblhau, ar gael i Ysgol Brynhyfryd a phreswylwyr lleol. Mae aelodaeth y Ganolfan Ffitrwydd wedi codi o 25 i 425 dros y misoedd diwethaf gyda thâl yn cael ei godi am ddefnydd o'r cyfleusterau. Mae'r Cyngor Sir yn fyr o £41k ac maent yn gofyn a all y Cyngor Tref fod o gymorth.
Yn dilyn trafodaeth yn nes ymlaen yn y noson, datganodd yr aelodau eu cefnogaeth lawn i'r prosiect a ***PHENDERFYNWYD YN UNFRYDOL****: bod y Cyngor Tref yn cynorthwyo gyda'r diffyg o £41,000 (pedwar deg un o filoedd o bunnau) a bod y swm yn cael ei wneud i fyny fel a ganlyn:*

Canolfan Grefft / Cyfleusterau Hamdden – swm eisoes yn y gyllideb	30,000
<u>Trosglwyddo'r canlynol o'r Gronfa 'Arian Wrth Gefn'</u>	
Prosiectau Cyfalaf y Dref	2,000
Prosiectau Amwynderau (Cae Ddôl)	4,500
Dathliadau'r Dref	4,500
Cyfanswm	**<u>£41,000</u>**

Taliad i'w wneud o dderbyn infois priodol. Yn y cyfamser, sicrwydd i'w dderbyn mewn ysgrifen bod defnydd o'r cyfleusterau ar gael i'r cyhoedd yn ystod y diwrnod.

57. ADRODDIAD Y MAER

Dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

23 Meh Lansio Gŵyl Gerddorol Genedlaethol Gogledd Cymru, adeilad Optic, Llanelwy
24 Meh Ymlaen Rhuthun – trefniadau ar gyfer y Carnifal
27 Meh Homewood Bound Rhewl – Bore Coffi Marie Curie
27 Meh Carnifal Rhuthun
29 Meh Canolfan Naylor Leyland – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
01 Gor Lansio CD Panto – Clwb Rygbi
03 Gor Tesco – ymweld â gwirfoddolwyr Casglu Banc Bwyd
03 Gor Eglwys Sant Pedr - gyda Roly Bain (Clown Cristnogol)
04 Gor Tesco – ymweld â gwirfoddolwyr Banc Bwyd
05 Gor Gwasanaeth Dinesig – Capel Mawr – Maer Dinbych
07 Gor Ymweld âg Awelon – Pen-blwydd Dan Davies yn 103
07 Gor Ymweld ag Eisteddfod Llangollen – cyngerdd fin nos
11 Gor Agor Rasys Mulod – Cae Ddôl
12 Gor Sul Dinesig – Cadeirydd Cyngor Sir Ddinbych yng Nghapel Mawr
13 Gor Cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun (materion gynt Cydlynydd y Dref)
14 Gor Fforwm Dros 50 yn Llys Erw
14 Gor Cyfarfod Blynyddol Banc Bwyd Dyffryn Clwyd – Capel Mawr, Dinbych
15 Gor Cyfarfod Ymlaen Rhuthun
17 Gor Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru – Cei Conna
18 Gor Cymdeithas Cyfeillion Ysbyty Rhuthun – te'r prynhawn yn Llys Erw
19 Gor Sul Dinesig
20 Gor Beirniadu Arddangosfa Flodeuol
20 Gor Cyfarfod gyda Jamie Groves a Chlerc y Dref

58. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. Stephen Beach	Te yng Nghanolfan Awelon, Sul Dinesig
Cyng. James Bryan	Pwyllgor Ymgynghorol Canolfan Awelon, Gŵyl Rhuthun, Carnifal Rhuthun, Sul Dinesig
Cyng. Elisabeth Culshaw	Carnifal Rhuthun, Cymdeithas Efeillio Rhuthun, Cymdeithas Cyfeillion Ysbyty Rhuthun, Sul Dinesig, amcan brisiau Cylchfan
Cyng. Ken Hawkins	Carnifal Rhuthun, Cyngerdd yng Nghanolfan Awelon, Sul Dinesig, addasu Cloc Eglwys Sant Pedr
Cyng. Rosie Hughes-Moseley	Sul Dinesig
Cyng. Menna Jones	Casglu Bwyd, Ffair Haf Ysgol Brynhyfryd, Hubbub, Sul Dinesig, Gwasanaeth yn Ysgol Borthyn, Llys Erw, beirniadu Arddangosfa Flodeuol, cyfarfod Cist Gymunedol.
Cyng. Robert Owen-Ellis	Banc Bwyd Rhuthun x 6, Sul Dinesig, Cymdeithas Ddinesig Rhuthun, Cyngerdd yn Ysgol Brynhyfryd, Casglu yn Tesco, Cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun
Cyng. Heather Williams	Cymdeithas Cyfeillion, Sul Dinesig, beirniadu Arddangosfa Flodeuol
Cyng. Geraint Woolford	Cyfarfod Clwstwr, Carnifal Rhuthun, Hyfforddiant i Gadeiryddion, ymweld â Dan Davies yn Awelon, Eisteddfod Llangollen, Rasys Mulod, Sul Dinesig, cyfarfod Grŵp Llywio Rhuthun.
Cyng. Emrys Wynne	Cymdeithas Cynghorau Gogledd a Chanolbarth Cymru, Sul Dinesig.

59. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2015*

60. MATERION YN CODI

Cof. Rhif 46 – COD YMDDYGIAD; Cof. Rhif 47 – MYNEDIAD I WYBODAETH a Chof. Rhif 48 – COFRESTRAU O FUDDIANNAU AELODAU – disgwylir ymateb y Grŵp Archwilio Dogfennau.

61. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2015.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

62. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2015.
***PENDERFYNWYD**: derbyn y cofnodion.*

63. PWYLLGOR PWERAU BRYS

***PENDERFYNWYD**: awdurdodi'r Maer a'r Dirprwy Faer i arwyddo sieciau a chymeradwyo Ceisiadau Cynllunio nad ydynt yn gystadleuol yn ystod y gwyliau. Bod cyfarfod i'w gynnal ar ddydd Llun, 17 Awst am 11:00 a.m. - aelodaeth – Y Maer, Y Dirprwy Faer, Cyngr. James Bryan ac Emrys Wynne.*

64. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

(a) CANOLFAN GYMUNEDOL LLANFWROG – ARDDANGOSFA TAN GWYLLT

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan y Mudiad uchod yn gofyn am arian grant o £1,000 tuag at y digwyddiad uchod – mae £1,000.00 yn y gyllideb o dan 'Arddangosfa Tan Gwyllt'.
***PENDERFYNWYD**: cadarnhau'r taliad o £1,000 tuag at yr Arddangosfa Tan Gwyllt.*

(b) GRWP CYMUNEDOL RHUTHUN – FFILM SWAE GENEDLAETHOL RHUTHUN

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr (ynghyd a phoster a gwybodaeth ariannol) gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol o £600 tuag at arian gwobrau.
***PENDERFYNWYD**: gwrthod y cais gan nad yw er budd mwyafrif trigolion Rhuthun.*

(c) CYNGOR SIR DDINBYCH – CANOLFAN HAMDDEN BRYNHYFRYD

Derbyniodd yr aelodau fanylion am brosiect yn y lleoliad uchod oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych eisioes a gofynnwyd iddynt ystyried cais am Gymorth Ariannol yn dilyn cyflwyniad yn gynharach heno.
***PENDERFYNWYD**: cytuno i'r diffyg o £41,000 (pedwar deg un o filoedd o bunnoedd) o dderbyn infois priodol oddi wrth Gyngor Sir Ddinbych. Yn ychwanegol i'r ffigwr o £30,000 yn y gyllideb o dan Ganolfan Grefft / Cyfleusterau Hamdden, yr £11,000 ychwanegol i ddod o'r Cronfeydd Wrth Gefn canlynol: £2,000 o Brosiectau Cyfalaf y Dref; £4,500 o Brosiectau Amwynderau (Cae Ddôl) a £4,500 o Ddathliadau'r Dref.*

(ch) EGLWYS Y TABERNACL (Capel)

Cyflwynodd Clerc y Dref Gais am Gymorth Ariannol, ynghyd a gwybodaeth a chopi o'r Cyfrifon diweddar, gan y Mudiad uchod, yn gofyn am gyfraniad o £200 tuag at gost Cyngerdd i ddathlu Canmlwyddiant yr Organ.
***PENDERFYNWYD**: gwrthod y cais gan fod cost y tocynnau yn fwy na digon i gyfarfod costau'r Cyngerdd.*

65. DARREN MILLAR, A.C.

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Mr Darren Millar, A.C. sydd yn dymuno mynychu cyfarfod o'r Cyngor Tref.
***PENDERFYNWYD**: gwahodd Mr Darren Millar, A.C. i gyfarfod o'r Cyngor Tref.*

66. OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS I GYMRU

Cyflwynodd Clerc y Dref gopi o'r Adroddiad Blynyddol am 2014 / 15.
***PENDERFYNWYD**: bod yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei hastudio gan Cyng. Ken Hawkins.*

67. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diweddu 30ain Mehefin 2015.
***PENDERFYNWYD**: derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

68. CYFRIFON I'W TALU

***PENDERFYNWYD**: cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

A.B.	Canda Copying Ltd	Rhentu Ffotogopïwr	*	129.14
746	Sandra Williams	Cyfieithu	*	90.00
747	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		150.12
748	J & C Brimble	Dyfrio Coed – Llwybr Celf – 8 coeden		243.30
749	J & C Brimble	Dyfrio planwyr		1,056.15
750	I.T.Williams Company Ltd	Trosglwyddo rhwystrau i Sgwâr Sant Pedr – Marchnad Ddydd Sadwrn, 22 Mehefin	*	180.00
751	Ground Control Limited	Torri glaswellt - Mehefin 2015	*	462.07
752	Fineline Printing & Stationery	Cyflenwad swyddfa	*	15.28
753	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol – du a gwyn	*	52.33
754	Canda Copying Ltd	Copïau ychwanegol – lliw	*	41.60
755	Planhigion Glyndŵr	Cyflenwi a phlannu planwyr	*	3,006.00
756	Cyngor Sir Ddinbych	Hurio 'Cherry Picker' a dreifar – planwyr / baneri.	*	792.00
757	Vale Country Club	Sul Dinesig – 74 @ £17.00	*	1,258.00
758	Ground Control	Gwaith yn y Parc Sgrialu – chwynnu ayyb	*	109.20
759	Ground Control	Gwaith yn yr Ardal Chwarae – chwynnu ayyb	*	390.00
760	I.T.Williams Co. Ltd	Trosglwyddo rhwystrau i Sgwâr Sant Pedr-Marchnad Ddydd Sadwrn, 18 Gorffennaf	*	180.00
761	Cymdeithas Gymunedol Llanfwrog	Cyfraniad par Arddangosfa Tan Gwyllt		1,000.00
762	Dafydd Williams	Cyflog / costau		148.64
763	Dafydd Williams	Arian parod – stampiau ayyb		26.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £1,117.60)

RHAN DAU

69. CYFLOG CLERC Y DREF

Derbyniodd yr aelodau fanylion am gyflog Clerc y Dref. Adroddodd y Maer iddi dderbyn llythyr gan Glerc y Dref yn cynnig ei ymddiswyddiad o 31 Rhagfyr 2015. Dywedodd bod angen digon o amser i gytuno proffil swydd ac awgrymodd y dylai pwyllgor bach gael ei sefydlu i drafod y mater yn fanylach.

***PENDERFYNWYD:** derbyn manylion cyflog Clerc y Dref. Bod y Maer a'r Dirprwy Faer ynghyd a Chyngr. Stephen Beach, Elisabeth Culshaw, Simeon Jones a Robert Owen-Ellis yn cyfarfod mor fuan ag y bo modd i drafod y mater ymhellach ac i baratoi hysbyseb swydd ar gyfer olynydd i Glerc y Dref.*

70. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

***PENDERFYNWYD**: cadarnhau Dydd Llun, 28 Medi 2015 fel dyddiad cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.*